# CERDD Y GENINEN.

TÔN—*Ymdaith Gwŷr Harlech.*

CANWN gerdd i lâs Geninen,
Arwydd Cymru yn y gynen;
Neu, mewn hedd, yn mynwes meinwen,
    Hoff Ceninen lâs.
Gwael ynt ysgall Celyddonwys,
Meill Gwyddelod, rhôs y Lloegrwys,
Amryw flodau o baradwys—
    Wrth Geninen lâs.
Ond yn ail i'w famiaith,
Pob rhyw Gymro perffaith
Sy'n hoff dwyn rhyw wyrddlas lwyn
O Genin,—mwyn gydymaith!
I ddyfnu swyn hyfrydol serch
At wlad ei enedigaeth;
Gwlad, er gwaethaf gelyn erch,
Oedd annibynol unwaith.

DEWI SANT a garai Genin,
Gwisgwyd hwynt gan lawer brenin;
O! mae bonedd anghyffredin
    Mewn Ceninen lâs!
Gyrodd ddychryn ar y Frangcod,
Cododd ar y Saeson ddincod,
Gwylltiodd ymaith y Gwyddelod,
    Do—Geninen lâs!
Yn y ffyrnig ryfel,
Ar ryw luman uchel
Yn *Agincourt*, tu draw i'r môr,
Gwrolai gôr anymgel

O Gymry dewr, dan Ddafydd Gam
Gan wneyd i'r gelyn ochel;
Gwisgai yntau, gun dinam,
Geninen lâs yn hywel!

Pan f 'o Cymro mewn gofidiau,
Maes o wlad yr hen fynyddau,
Melus tarfu trist feddyliau
A Cheninen lâs!
Tra bo'i galon yn ymddifad,
O mor hoff yw adgyfodiad
Diniweidrwydd yn yr hen-wlad,
A Cheninen lâs!
Mae ei gwyrddlas hyfryd,
Fel newydd-der mebyd,
Yn llanw 'i fron â thristwch llon,
Nes ydyw bron a d'wedyd
Fod cof am hen ddywenydd gynt
Yn well na helynt hawddfyd;
Yna'i galon gur yn gynt,
A gwisg Geninen hefyd.

Dyn a gadwo hen arferion
Cymru wlad a'i syml hrwyddion,
Dyna'r dyn a gar ei defion,
A Cheninen lâs!
Defod hawddgar oedd *cymhortha*—
Pawb am ddwyn y cenin glasa'—
Ac o'r ddefod hon y deillia
Dwyn Ceninen lâs.
Tra bo dw'r yn Hafren,
Tra bo llewyrch heulwen,
Tra bo gwŷn yn mynwes dyn
At wyryf, anwyl feinwen,
Tra bo genedigol wlad
Ydd oreu ar ddaearen,
Cymro cywir byth ni wâd
Ei iaith—a glas Geninen!

*Llundain.* Ioan Meirion.



XZO 5201783

Ac yn sir Aberteifi mae merched heini iawn,
I'w gwel'd ar fryn a broydd, foreuddydd a phrydnawn.
Maent yn fywiog, &c.

Mae merched sir Frycheiniog yn serchog iawn eu gwedd,
Dymunwn i gyd-oesi â rheini hyd fy medd;
Ac hefyd yn sir Fynwy mae merched hardd yn wir,
Yn gan'mil mwy hyfrydlon na neb o'r Saeson sur.
Maent yn fywiog, &c.

Mae merched sir Faesyfed i'w gweled yma a thraw,
A merched sir Drefaldwyn yn addfwyn ar bob llaw;
I ferched Fflint a Dinbych, 'rwy'n chwenych nos a dydd
Na byddo'r un o honynt yn profi calon brudd.
Maent yn fywiog, &c.

Mae merched sir Gaernarfon a Môn a Meirion fwyn
Yn canu fel yr eos, neu'r gog ar frigau'r llwyn,
Mor siriol eu hymddygiad, i'w gweled yn mhob lle,
'Does neb fel Merched Cymru i'w cael o dan y ne'.
Maent yn fywiog, &c.

Mae llawer o enethod yn dyfod dros y dwr,
Yn Irish ac yn Saeson, yn greulon am gael gŵr,
Ni charaf mo'r Wyddeles, na'r Saes'nes o un rhyw
Mi fynaf ferch o Gymru, gwlad gu ragorol yw.
Maent yn fywiog, &c.

Yn Amlwch a Chaergybi, Llangefni, Llanerch'medd,
Beaumaris a Bryngwran, Bodedern yr un wedd,

Llanfechell a Brynsiencyn, Llanddeusant, Aberffraw,
Eu bath yn ngwlad y Saeson ni welais ar un llaw.
Maent yn fywiog, &c.

Caernarfon a Bethesda, a Bangor, Conwy wiw,
Pwllheli a Thre Madoc, mae merched glân o ryw;
Beddgelert, Capel Curig, Bontnewydd, Clynog, Borth,
'Does merched yn y deyrnas fel Merched bach y North.
Maent yn fywiog, &c.

Wrth deithio siroedd Cymru, y North a'r South i gyd,
Trwy dair ar ddeg o siroedd, a chael eu gwleddoedd clyd,
'Rwy'n gweled eu hawddgarwch, a'u hardd brydferthwch llon,
Mae merched glân i'w gweled trwy Gymru oll o'r bron.
Maent yn fywiog, &c.

Wel bellach wrth derfynu, yr wyf yn gwaeddi llwydd
I bawb o'r merched mwynion, sy'n perchen calon rwydd;
A iechyd hir ddymunwn, yn wir i fawr a mân,
Wel dewch yn mlaen yn serchog, rhowch geiniog am y gân.

Maent yn fywiog iawn a serchog,
Godidog yn mhob lle;
D'oes neb fel merched Cymru
I'w cael o dan y ne'.

IEUAN CADFAN.

---

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.*
82